TANIO!

CANLLAWIAU ARFERION DA AR GYFRANOGAETH PLANT A PHOBL IFANC

5

DEWISIADAU AMGEN SY'N YSTYRIOL O BLANT A PHOBL IFANC YN LLE DOGFENNAU

Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru



Ysgrifennwyd gan Pat Smail
Mewn cydgysylltiad â: Anna Skeels a Mererid Lewis,
Uned Cyfranogaeth a Jane Peffers, Prosiect Cyfranogi LLCC

2007

Beth fydd y canllaw hwn yn ei ddweud wrthyf?

Mae'r canllaw hwn yn nodi amrywiaeth eang o ffyrdd o gyfleu neges ar wahân i gynhyrchu dogfen. Mae'n ystyried nodweddion gwahanol fformatau i dynnu sylw at fanteision ac anfanteision gwahanol opsiynau. Mae'n darparu enghreifftiau achos o bob cwr o Gymru sy'n dangos dewisiadau amgen, yn cynnwys gwefannau a negeseuon testun.

Beth yw'r dewisiadau amgen yn lle dogfennau?

Am flynyddoedd lawer, mae grwpiau wedi bod yn codi arddangosfeydd neu'n 'gwneud fideo' i arddangos eu gwaith neu i gyfleu negeseuon. Erbyn hyn mae amryw o gyfryngau gwahanol ar gael yn hwylus i gyfleu negeseuon yn cynnwys:

- Posteri
- Modelau 3D
- Cyflwyniadau PowerPoint
- Llyfrau comics/cartŵns
- Tapiau sain, tapiau fideo neu DVD
- Cerddoriaeth
- Peiriannau MP3
- Dulliau digidol o ddweud stori (gan ddefnyddio ffotograffau a lleisiau)
- Dramâu/sioeau pypedau
- Gwefannau.

Gallwch hefyd gynnal digwyddiadau untro fel gweithdai, cynadleddau neu ddiwrnodau creu gweledigaeth. Gall unrhyw ddigwyddiadau untro fel hyn gynnwys posteri neu arddangosfeydd o ffotograffau neu waith celf sy'n cyfrannu at y neges. Hefyd, ystyriwch dechnegau marchnata eraill fel y bag 'pethau da' sy'n cynnwys pennau ysgrifennu am ddim, bandiau llewys a Frisbees er enghraifft. Gall y rhain fachu sylw eich 'marchnad darged' a sicrhau bod y neges yn para mwy na diwrnod. (**Gweler Enghraifft Achos 1**). Bydd yr ateb gorau i'ch anghenion yn dibynnu ar nifer o ffactorau gwahanol. Ystyriwch y Cwestiynau Allweddol yn y canllawiau hyn a nodweddion a chostau gwahanol fformatau, ynghyd â'u goblygiadau o ran adnoddau (**Gweler Tabl 1**).

Tabl 1: Nodweddion gwahanol fformatau a'u costau o ran adnoddau (deunyddiau ac ati ac amser)

	Grwp oedran targed	D. Cost lawn deunyddiau etc neu P. Cost y person	Amser paratoi a/neu atgynhyrchu	Hygyrchedd	Prif fanteision/ anfanteision eraill
COPI CALED O DDOGFEN (gweler Enghraifft Achos 2)	Pawb	P. Dan £5 y copi	Buddsoddi peth amser a sgiliau TG yn ofynnol.	Gall mân newidiadau i'r fformat e.e. maint ffontiau, defnyddio lliw etc wella hygyrchedd i bobl o wahanol oedran a'r rhai sydd â nam ar eu golwg.	Cymharol rad a hawdd i'w creu gyda mynediad at PC ac argraffydd lliw. Llawer o opsiynau: dalen hysbysebu, pamffled, taflen, adroddiad neu lyfr.
POSTER (gweler Enghraifft Achos 1)	Pawb	D. Dan £50	Buddsoddi peth amser a sgiliau celf/dylunio graffig yn ofynnol.	Mae angen nifer o safleoedd a lleoliadau i gael yr effaith fwyaf. Mae'n gweithio'n dda o'i gyfuno â thaflenni.	Cymharol hawdd i'w greu gyda mynediad at PC. Mae atgynhyrchu meintiau lliw A4+ yn mynd yn llawer drutach.
LLYFR COMICS/ CYLCHGRAWN (gweler Enghraifft Achos 1 ac 11)	Pawb	P. Dan £5 y copi	Buddsoddi peth amser a sgiliau celf/dylunio graffig yn ofynnol.	Lefel dda o hygyrchedd.	Opsiwn sy'n dod yn fwy a mwy poblogaidd. Llawer llai brawychus i'w darllen na dogfen destun arferol.
STORI DDIGIDOL (gweler Enghraifft Achos 12	Pawb	D. Yn dibynnu ar ffynhonnell arbenigedd a bod PC a meddalwedd ar gael	Buddsoddi peth amser a sgiliau TG a dylunio yn ofynnol.	Lefel dda o hygyrchedd yn cynnwys i'r rhai sydd ag anableddau.	Gall storïau digidol byr (dan 5mun) fod yn ffordd effeithiol o gyfleu negeseuon.
DVD (gweler Enghraifft Achos 7	Pawb	P. DVDs gwag hyd at £1/person	Mae modd eu creu o PC sy'n gallu 'Darllen Ysgrifennu' i DVD.	Lefel dda o hygyrchedd yn cynnwys i'r rhai sydd ag anableddau.	Opsiwn sy'n dod yn fwy a mwy poblogaidd fel y mae technoleg addas ar gael i ysgolion/colegau/prosiectau cyfryngau.
DVD WEDI'I ANIMEIDDIO (gweler Enghraifft Achos 10)	Pawb	D. Yn dibynnu ar ffynhonnell arbenigedd; coleg/mud. gwirfoddol yn rhatach.	Mae angen sgiliau/amser animeiddio/dod â nhw i mewn. Gall fod yn rhan o waith arall gyda.	Lefel dda o hygyrchedd yn cynnwys i'r rhai sydd ag anableddau.	Mae sgiliau/technoleg addas ar gael i rai colegau/prosiectau cyfryngau.

Allwedd: Grwpiau oedran targed A 5-10 oed B 11-15 oed C 16-25 oed

	Grwp oedran targed	D. Cost lawn deunyddiau etc neu P. Cost y person	Amser paratoi a/neu atgynhyrchu	Hygyrchedd	Prif fanteision/ anfanteision eraill
FIDEO (gweler Enghraifft Achos 13)	Pawb	P. Fideo gwag tua 75c/person	Cost ychwanegol neu amser real i ddyblygu.	Lefel dda o hygyrchedd yn cynnwys i'r rhai sydd ag anableddau.	Llai poblogaidd oherwydd twf y farchnad DVDs.
TP SAIN/CD (gweler Enghraifft Achos 10)	B C	P. Tâp sain gwag tua 50c/person	Cost ychwanegol neu amser real i ddyblygu.	Mae'n anodd cynnal diddordeb plant a phobl ifanc heb elfen weledol.	Tâp-Fformat llai poblogaidd oherwydd twf y farchnad CDs. Ond gwych i ganeuon/ cerddoriaeth.
MP3/ PODLEDI-ADAU/ NEGESEUON TESTUN (gweler Engh. Achos 4 a 6b)	B C	P Dim cost/rhad i'w hatgynhyrchu'n electronig (tua 10c/ testun)	Rhywfaint o amser a sgiliau TG yn ofynnol.	Gellir lawrlwytho i PCs/ chwaraewyr MP3. Gellir anfon llawer o negeseuon testun.	Yn dda i bobl ifanc sydd â mynediad MP3 drwy PC neu chwaraewyr MP3/ ffonau symudol. Mae Colegau/ Prosiectau Cyfryngau yn gwybod am hyn.
CYFLWYNIAD POWERPOINT (gweler Enghraifft Achos 14	Pawb	D. Dan £20 P. Gellir atgynhyrchu am ddim yn electronig	Buddsoddi peth amser a sgiliau TG yn ofynnol.	Hawdd iawn i'w addasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd targed.	Hawdd ei addasu i'w ddiweddaru. Gall gynnwys ffotograffau a graffigwaith.
CD RHYNG-WEITHIOL (gweler Enghraifft Achos 8)	Pawb	P. DVD gwag hyd at £1/person	Buddsoddi llawer o amser a sgiliau TG arbenigol yn ofynnol.	Mae angen rhywfaint o sgiliau cyfrifiadurol.	Gall gynnwys fersiynau electronig/ pdf o ddogfennau caled, gan arbed costau argraffu.
GÊM PC (gweler Enghraifft Achos 8)	A B	P. DVD hyd at £1/person	Buddsoddi llawer o amser a sgiliau TG yn ofynnol.	Mae angen rhywfaint o sgiliau cyfrifiadurol.	Gall fod yn anodd i'w haddasu neu ei diweddaru unwaith y bydd wedi'i chwblhau.

	Grwp oedran targed	D. Cost lawn deunyddiau etc neu P. Cost y person	Amser paratoi a/neu atgynhyrchu	Hygyrchedd	Prif fanteision/ anfanteision eraill
DRAMA (gweler Enghraifft Achos 5	Pawb	D. Y prif gostau yw amser a chanolfannau.	Buddsoddi llawer o amser a sgiliau drama yn ofynnol.	Hawdd iawn i'w haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd targed.	Gall fod yn ymrwymi-ad amser mawr. Mwy cost effeithiol os caiff ei defnyddio droeon. Angen hwyluswr gyda'r sgiliau a gwybodaeth addas.
SIOE BYPEDAU (gweler Enghraifft Achos 9)	A	D. Y prif gostau yw amser a chanolfannau.	Amser a sgiliau celf/drama yn ofynnol.	Hawdd iawn i'w haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd targed.	Hyblyg. Mae modd ei gwneud ar raddfa fach gyda grwp lleol a/neu ei ffilmio i'w defnyddio'n ddiweddarach.
GÊM FWRDD (gweler Enghraifft Achos 15	A B	D. Dan £50	Buddsoddi peth amser a sgiliau celf/ crefft yn ofynnol. Gall fod yn rhan o waith arall gyda phlant a phobl ifanc.	Hawdd iawn i'w haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd targed.	Llawer o opsiynau ar gael e.e. cyfleu gwybodaeth, codi cwestiynau, annog rhyngweithio ymysg grwp.
SET O GARDIAU (gweler Enghraifft Achos 15)	Pawb	D. Dan £50	Buddsoddi peth amser a sgiliau celf/ crefft yn ofynnol. Gellir ei ddatblygu fel rhan o waith arall gyda phlant a phobl ifanc.	Hawdd iawn i'w haddasu ar gyfer gwahanol dasgau a chynulleidfaoedd targed.	Llawer o opsiynau ar gael e.e. gwybodaeth, cwestiynau neu becyn symbolau i gemau rhyngweithiol.
MODELAU (gweler Enghraifft Achos 3)	Pawb	D. Dan £50	Peth amser a sgiliau celf/crefft yn ofynnol.	Hawdd iawn i'w haddasu ar gyfer gwahanol dasgau.	Hyblyg. Gallant gael eu creu gan un grwp a'u defnyddio'n ehangach wedyn.

	Grwp oedran targed	D. Cost lawn deunyddiau etc neu P. Cost y person	Amser paratoi a/neu atgynhyrchu	Hygyrchedd	Prif fanteision/ anfanteision eraill
GWEFAN (gweler Enghraifft Achos 6a a 6b)	B C	D. Hyd at £1000 oni bai fod y sgiliau ar gael yn fewnol. Bydd angen ei chynnal a'i diweddaru. Neu trafodwch i gael dudalen ar wefan sydd eisioes yn bod.	Buddsoddiad amser mawr a/neu angen dod â sgiliau TG arbenigol i mewn.	Mae angen mynediad i'r rhyngrwyd a sgiliau cyfrifiadurol minimal.	Opsiwn sy'n dod yn fwy a mwy poblogaidd. Gall roi mynediad i unrhyw un sydd â mynediad i'r rhyngrwyd.
ARDDAN-GOSFA (gweler Enghraifft Achos 19	B C	D. £500 i £1000 am fyrddau arddangos/ ffotograffau/llun-gopïo lliw.	Gall arddangosfa untro fynd â llawer o amser; mwy o fudd o'i defnyddio'n rheolaidd neu mewn sawl man.	Mae angen un neu fwy o leoliadau hygyrch.	Opsiwn defnyddiol – gellir ei ychwanegu at ddigwyddiadau eraill yn y gymuned i gynyddu hygyrchedd.
GWEITHDY (gweler Enghraifft Achos 16)	Pawb	D. Costau lleoliad a lluniaeth.	Peth amser, ond llai o ddefnyddio staff/hwylusydd profiadol.	Hawdd i'w addasu ar gyfer cynulle idfa darged.	Gellir ei gysylltu â digwyddiadau eraill neu leoliadau eraill. Opsiwn defnyddiol. Angen hwyluswr gyda'r sgiliau a gwybodaeth addas.
CYNHADLEDD/ DIGWYDDIAD CREU GWELEDI-GAETH (gweler Enghraifft Achos 17 a 18)	Pawb	D. Costau lleoliad a lluniaeth Ynghyd â chostau ARDDANGOSFA fel uchod.	Gall gymryd amser i'w cynllunio a'u gweithredu.	Mae angen un neu fwy o leoliadau hygyrch.	Opsiwn defnyddiol fel digwyddiad untro e.e. lansio ymgynghoriad neu ddechrau cam newydd.
SYSTEM BLEIDLEISIO RYNGWEITHIOL (gweler Enghraifft Achos 20)	Pawb	D. Hyd at £5000 i brynu pecyn system gyfan – rhatach llogi/ benthyca gan gorff arall.	Peth amser, ond llai o ddefnyddio staff/hwylusydd profiadol.	Mae angen sgiliau PowerPoint a sgiliau cyfrifiadurol minimal. Hawdd ei haddasu ar gyfer y gynulleidfa darged.	Opsiwn sy'n dod yn fwy a mwy poblo-gaidd, yn enwedig i grwpiau mawr. Drud i'w brynu, ond mae'n rhoi hygyrchedd i bawb.

Enghreifftiau Achos

Enghraifft Achos 1: Listen up M.U.S.H. (Making Ur Self Heard)

Mae Fforwm Ieuenctid Abertawe wedi dyfeisio Ymgyrch Listen up M.U.S.H (Making Ur Self Heard). Yng nghynhadledd Fforwm Ieuenctid 2005 nodwyd bod bwlio yn bwynt gweithredu sy'n flaenoriaeth i bobl ifanc yn Abertawe.

Rydym yn cynnal yr ymgyrch hon hefyd am ein bod wedi darllen am fwlio yn y newyddion ac wedi gweld llawer o adroddiadau am fwlio ar y teledu ac mewn ysgolion yn ein hardal. Rydym yn bwriadu rhoi gwybod i ysgolion a grwpiau ieuenctid am ein hymgyrch gwrth-fwlio drwy: ddosbarthu calendr, dylunio poster; reu stribed comig i'w roi ar ein gwefan; llunio map bwlio o Abertawe; cynnal gweithdy bwlio i bobl ifanc; dylunio polisi bwlio ar gyfer pobl ifanc ac ysgrifennu erthygl ar eu gwefan.

Maent hefyd wedi cynhyrchu poteli dwr M.U.S.H (Making Ur Self Heard) gyda'r 10 hawl ar yr ochr i'w rhoi i bobl ifanc am ddim.

Gweler hefyd: youth@swansea.gov.uk

Enghraifft Achos 2: Y Calendr 10 Hawl

Ar ôl darllen cais pobl ifanc oedd yn mynychu Canolfan Wybodaeth The Doorway i Bobl Ifanc ym Mlaenafon am godi ymwybyddiaeth ymysg eu cyfoedion o 10 Hawl Llywodraeth Cynulliad Cymru, cysylltwyd â CSV (Community Service Volunteers) a gofynnwyd iddynt gefnogi prosiect i fynd i'r afael â hyn. Penderfynodd y bobl ifanc gynhyrchu calendr o'r 10 Hawl gyda phob mis yn dangos un hawl, a'r bobl ifanc oedd yn ymddangos yn y ffotograffau yn dewis y math o ddelweddau yr oeddent am eu portreadu. Roedd amryw o bobl ifanc o wahanol gefndiroedd yn rhan o'r prosiect ac roeddent yn rhan o'r holl broses o gynhyrchu'r calendr.

Enghraifft Achos 3: Olwyn Hawliau

Bu artist yn gweithio gyda phlant oedd yn mynychu cynllun chwarae i greu Olwyn Hawliau mewn metel, i ddangos sut mae hawliau'n effeithio ar blant ar draws y ddaear. Mae'r cerflun yn cael ei arddangos yn awr yng Nghanol Gymunedol Gilfach Goch fel bod pobl yn cael ei weld.

Prosiect Arbed Ynni, Achub y Plant, Nwy Prydain 2005.

Enghraifft Achos 4: Cyber K8

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Caerffili wasanaeth gwybodaeth negeseuon testun o'r enw 'Cyber K8'. Gall pobl ifanc gofrestru drwy neges destun neu ar-lein i gael negeseuon testun am un neu fwy o'r canlynol: digwyddiadau, hamdden, newyddion y cyngor, gwaith ffordd, cerddoriaeth fyw, newyddion ieuenctid, y Cyngor Cyffredinol, diogelwch y ffyrdd. Mae'r system hefyd yn caniatáu i bobl ifanc anfon negeseuon drwy Cyber K8.
Gweler hefyd **www.caerphilly.gov.uk** neu
http://k8.managedtext.com/textmessagingservice.aspx

Enghraifft Achos 5: The Big Eye Workshop a Dim Drag Ar Y Ffag

Mae gan Wasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy brosiect o'r enw The Big Eye Workshop. Yn ddiweddar, mae wedi cynhyrchu ffilm yn Gymraeg a Saesneg, wedi'i gwneud gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc o'r enw Dim Drag Ar Y Ffag (No Smoking No Butts). Mae wedi gwneud ffilmiau eraill hefyd ac wedi cynnal perfformiadau a gynhyrchwyd gan bobl ifanc am faterion pobl ifanc.

Enghraifft Achos 6 (a): Fy Nghinio Ysgol

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hefyd wefan lawn hwyl a gwybodaeth sy'n ceisio addysgu plant a rhieni am fanteision bwyta diet iach ac annog ymwelwyr i ddysgu mwy am brydau ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i ymrwymiad i fwyta'n iach.

Mae gwefan 'Fy Nghinio Ysgol' wedi ennill y Wobr farchnata fawr ei bri gan y Gymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol cyn hyn. Y rhan fwyaf poblogaidd o'r wefan yw'r gemau yn yr adran 'Hwyl'. Mae naw gêm ryngweithiol yma sydd wedi'u bwriadu i addysgu disgyblion am fwyta'n iach, ac maent yn llawn hwyl. **Gweler hefyd Sgrinlun 1** o'r wefan neu ewch i **www.myschoollunch.co.uk/caerphilly/**

Sgrinlun 1: Fy Nghinio Ysgol

Enghraifft Achos 6 (b): Powys YOB (Ieuenctid gyda Barn i'w Rhoi)

Mae gan Powys YOB (Ieuenctid gyda Barn i'w Rhoi) adran ar y wefan dan y teitl 'Cyfeirlyfr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Powys'. Mae'r adran hon yn galluogi plant a phobl ifanc i ddod o hyd yn hawdd i weithgaredd yn eu hardal ar gyfer eu hoedran nhw gan fod y cyfeirlyfr yn cyfyngu'r chwiliad yn awtomatig. Mae gan y wefan hefyd adran 'Modryb Ofidiau' lle gall pobl ifanc gyflwyno cwestiynau neu ofnau i Mog y Fodryb Ofidiau yn ddienw drwy e-bost neu neges destun.
Gweler sgrinlun 2 o'r wefan neu ewch i **www.powysyob.com**

Sgrinlun 2: Powys YOB Ieuenctid gyda Barn i'w Rhoi

Enghraifft Achos 7: DVD Barnardos Cymru

Mae Barnardos Cymru wedi defnyddio DVDs a grëwyd gan bobl ifanc ar gyfer y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Mae'r DVDs yn galluogi'r bobl ifanc i rannu eu teimladau am amryw o bynciau a chafodd ei greu fel dull amgen iddynt o leisio eu barn a chofnodi'r hyn y maent yn ei feddwl a'i deimlo. Mae'r DVD yn dangos barn y bobl ifanc am amryw o bynciau fel annibyniaeth, addysg, iechyd rhywiol, perthnasoedd, a gweithwyr da a gwael. Defnyddir dramâu chwarae rhan hefyd a modelu yn lle dogfennau, gyda phobl ifanc yn cyfrannu at y gwaith o'u cynhyrchu. Mae Grwp Cyfeirio Pobl Ifanc y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn dod o bob rhan o Gymru a, gyda Barnardo's Cymru'n gwneud y gwaith hwyluso, y grwp aeth ati i gynhyrchu'r DVDs gan ddefnyddio cyfleusterau golygu symudol fel rhan o'u hadolygiad o'r gwasanaethau i blant anabl. Mae Busnes Pwyllgor wedi cael ei ddarlledu ac mae digwyddiadau eraill wedi cael eu recordio gan gynnwys pobl ifanc yn defnyddio Adrodd Stori a Cherddoriaeth ar DVD.

Enghraifft Achos 8: Criw'r Gilfach Goch

Mae prosiect Yma i HELPU Achub y Plant wedi bod ar waith yn y Gilfach Goch ers dwy flynedd.
Mae wedi bod yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion i hyrwyddo a galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi mewn gwaith Cymunedau yn Gyntaf a gwaith adfywio arall.
Mae wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc i'w hannog a'u helpu i gymryd rhan yn Cymunedau yn Gyntaf. Gwnaed hyn drwy lawer o weithgareddau a mân-brosiectau gwahanol yn cynnwys:
Cefnogi pobl ifanc i gynnal Archwiliad Plant i ganfod beth yw barn plant am Gilfach Goch a sut y byddent yn hoffi ei weld yn newid yn y dyfodol.
Cefnogi pobl ifanc i wneud ffilm, a alwyd ganddynt yn *Stop, Look and Listen*, am farn pobl ifanc am y Gilfach Goch. Penderfynodd y bobl ifanc wneud y ffilm yn arddull dyddiadur y Brawd Mawr.
Cefnogi pobl ifanc i ddylunio a'u helpu i adeiladu gêm gyfrifiadurol wedi'i hanimeiddio i ddangos i bobl mewn cymunedau eraill sut y gall pobl ifanc gymryd rhan. Dyluniodd y bobl ifanc y cymeriadau a gwahanol rannau o'r gêm a'u hanimeiddio.
Cefnogi pobl ifanc i fynd i gyfarfodydd Cymunedau yn Gyntaf a siarad am faterion yr oedden nhw wedi eu nodi fel rhai oedd yn bwysig iddynt.

Enghraifft Achos 9: Sioe Bypedau (Y Gilfach Goch)

Mae prosiect Yma i HELPU Achub y Plant wedi bod yn rhedeg yn y Gilfach Goch am ddwy flynedd. Bu Gweithiwr Prosiect dan Hyfforddiant gydag Achub y Plant yn gweithio gyda phlant ifanc iawn i egluro Cymunedau yn Gyntaf iddynt.

Fel Gweithiwr Prosiect dan Hyfforddiant gydag Achub y Plant, sefydlais glwb ar ôl yr ysgol i blant 5-7 oed yn y Gilfach Goch. Bu'r clwb yn rhedeg am 6 wythnos ac roedd y sesiynau'n 1 awr a 15 munud. Nod y clwb oedd addysgu'r plant am Cymunedau yn Gyntaf. Meddyliais am ffyrdd o wneud hyn fel y byddai'r plant yn deall ac na fyddent yn colli diddordeb. Meddyliais am y syniad o greu sioe bypedau y byddai'r plant yn ymddangos ynddi – byddai'n cael ei ffilmio a'i rhoi wedyn i ysgolion cynradd eraill yn yr ardal. Mwynhaodd y plant y sesiynau'n fawr a chawsant fudd ohonynt

Enghraifft Achos 10: Prosiectau Ieuenctid Cerddorol yn Nhor-faen (Musical Youth)

Cynhyrchodd gofalwyr ifanc yn Nhor-faen DVD o'r enw *Thinking Back* gyda chymorth y Prosiect Ieuenctid Cerddorol (Musical Youth). Roedd y DVD yn cynnwys animeiddiadau a chaneuon a chafodd ei gynhyrchu gan bobl ifanc er budd gofalwyr ifanc eraill a hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae gofalwyr ifanc yn ei wneud. Hefyd yn Nhor-faen, cafodd CD o'r enw '*Pure Vibes*' ei gynhyrchu fel rhan o brosiect ymwybyddiaeth o gyffuriau yr.

Enghraifft Achos 11: Llais Ni – Cylchgrawn Pobl Ifanc

Mae'r prosiect cyfranogaeth pobl ifanc ar Ynys Môn Llais Ni: Youth Môn yn cynhyrchu cylchgrawn ddwy waith y flwyddyn sy'n mynd allan i'r holl blant a phobl ifanc ar Ynys Môn. Caiff y cylchgrawn ei ysgrifennu a'i olygu gan blant a phobl ifanc ac mae'n tynnu sylw at faterion sydd o bwys i blant a phobl ifanc yn ogystal â dathlu eu llwyddiannau yn ystod y flwyddyn.

Enghraifft Achos 12: Canllaw Ar-lein – Adrodd Stori'n Ddigidol

Cafodd CREDU, prosiect gwerth miliynau o bunnoedd a grëwyd gan Canllaw Ar-lein a Gwasanaethau Fujitsu i ddarparu rhwydwaith o 82 Digilabordy wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru, ei lansio gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ddydd Gwener 10fed Medi yn swyddfa Canllaw Ar-lein yng Nghaerffili. Drwy Ddigilabordai CREDU, caiff pobl ifanc gyfle i ddysgu sgiliau TGCh sy'n hanfodol yn y byd digidol sydd ohoni heddiw. Bydd pobl ifanc yn cael eu hannog i ddatblygu cynnwys ar gyfer porth CREDU am bynciau sy'n bwysig iddyn nhw ac yn y ffyrdd sy'n mynegi eu meddyliau, eu hemosiynau a'u gallu creadigol orau – boed hynny ar ffurf stori ddigidol, rap, dyddiadur fideo, erthygl ysgrifenedig, animeiddiad, darn o gerddoriaeth etc.

Enghraifft Achos 13: Fideo 'Listen Up' Mencap

Nod y Fideo 'Listen Up' yw helpu plant sydd ag anabledd dysgu i gwyno am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Mae'r fideo'n canolbwyntio ar wneud dewisiadau a chwynion, yn ogystal â defnyddio'r Pecyn 'Listen Up'. Yn y fideo rydych yn clywed plant, rhieni a staff yn siarad am eu profiadau, eu syniadau a'u hatebion nhw yn y maes pwysig hwn. Cafodd y fideo ei wneud gyda help nifer o asiantaethau a sefydliadau gwahanol.

Enghraifft Achos 14: Young People Say…

Tîm Hyfforddiant Cyfranogaeth Pobl Ifanc wedi'i leoli yn yr Uned Cyfrangoaeth yn Achub y Plant (Cymru) yw Young People Say... Cafodd y Tîm ei sefydlu'n wreiddiol gan Weithiwr Prosiect ifanc dan hyfforddiant gyda grwp o 9 o wirfoddolwyr ifanc yn gynnar yn 2006. Datblygasant raglen hyfforddiant diwrnod llawn o'r dechrau'n lân ac aethant ati i gynhyrchu pecyn adnoddau ac arddangosfa PowerPoint i'w helpu i gyflawni eu nod o wella safonau cyfranogi ar draws Cymru. Gwnaethant hyn drwy ddarparu gweithdai hyfforddiant cyfranogaeth i grwpiau o weithwyr proffesiynol o wahanol gyrff darparu gwasanaethau, Awdurdodau Lleol a Mudiadau Gwirfoddol ar draws Cymru.

Enghraifft Achos 15: Gêm Fwrdd a Set o Gardiau

Rhoddwyd copïau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chopïau wedi'u torri allan o ddeg 'cerdyn hawliau' i'r dosbarth, i gyflwyno'r cysyniad o hawliau yn gyffredinol ac, yn arbennig, yr hawl i ryddid mynegiant a'r hawl i ryddid o ran cred grefyddol. Roedd yn bwysig cael pobl ifanc i feddwl am y gwrthdaro posibl rhwng hawliau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

http://www.diversityanddialogue.org.uk/right_to_offend.pdf

Mae CROA wedi llunio gêm fwrdd hawliau plant ar gyfer plant o oed cynradd. Noddodd Gwobrau'r Mileniwm y gwaith o'i chynhyrchu. Gêm bapur yw hon a gall plant ddefnyddio eu darnau chwarae a'u dis eu hunain a lliwio'r bwrdd ac ati, felly mae'n reit ddefnyddiol i blant ar draws ystod o oedran a gallu. Cysylltwch â Steve Lowe NDM-CROA:

http://www.croa.org.uk

Enghraifft Achos 16: Gweithdy Mapio Cyfranogaeth yr Uned Cyfranogaeth

Cafodd y Gweithdai Mapio Cyfranogaeth eu datblygu a'u darparu am nifer o resymau.

Roedd yr Uned yn mapio cyfranogaeth gydag oedolion a sefydliadau drwy holiaduron ac roedd am fapio gyda phobl ifanc hefyd. Cafodd y cwestiynau o'r holiaduron i oedolion eu haddasu ar gyfer gweithdy ymarferol i bobl ifanc.

Roedd y gweithdai yn ffordd o gael barn a syniadau pobl ifanc ar draws Cymru a bwydo'r rhain i mewn i waith yr Uned a'r Consortiwm Cyfranogaeth.

Roedd y gweithdai'n ffordd o gael pobl ifanc i ymwneud â gwaith yr Uned – aeth nifer o bobl ifanc ymlaen i ymwneud â Young People Say… (Gweler Enghraifft Achos 14).

Bwriadwyd y gweithdai i fod yn hwyl i'r rhai oedd yn cymryd rhan ac i roi gwybodaeth iddynt, gan edrych ar brofiadau o gyfranogi: enghreifftiau o ymarfer da a gwael; sut yr hoffent weld cyfranogaeth (ac adborth) yn gweithio; a'u hawgrymiadau gorau nhw am gyfranogi.

Enghraifft Achos 17: Digwyddiad Creu Gweledigaeth Comisiynydd Plant Cymru

Gwahoddodd y cyn-Gomisiynydd Plant gant a hanner o bobl ifanc i'r Galeri yng Nghaernarfon ddydd Llun, 13 Tachwedd 2006 ar gyfer sesiwn i ymgynghori am ei waith a'i gynlluniau. Roedd y digwyddiad yn un o gyfres a fwriadwyd i helpu i roi llais gwirioneddol i blant a phobl ifanc yn gosod blaenoriaethau ar gyfer rhaglen waith y comisiynydd plant i'r dyfodol. Roedd aelodau'r o'r grwp e-bostio Backchat a phlant a phobl ifanc a ymwelai â gwefan y Comisiynydd hefyd yn cael bwrw pleidlais. Dywedodd Peter Clarke, y cyn-Gomisiynydd Plant Cymru:

O'r dechrau un rydw i wedi ceisio gwneud yn siwr ein bod yn canolbwyntio ar y materion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc Cymru. Mae digwyddiad heddiw yn rhan o'r fframwaith yr wyf wedi'i ddatblygu gyda'm tîm staff. Mae materion o bob agwedd o'n gwaith yn cael eu casglu a'u grwpio ynghyd mewn themâu gyda help fy Ngrwpiau Cynghori o bobl ifanc

Enghraifft Achos 18: Cynhadledd Man Agored y Ddraig Ffynci

Nod y gynhadledd hon oedd rhoi hwb cychwynnol i drafodaethau sydd a ffocws iddynt a thrafod sut y gellid symud cyfranogiad plant 0-10 ymlaen. Penderfynodd y Ddraig Ffynci drefnu cynhadledd 'Man Agored' am gyfranogaeth plant, cynhadledd a fyddai'n defnyddio'r cyfoeth gwirioneddol o wybodaeth a dealltwriaeth sydd gan y rhai sydd eisoes yn gwneud y gwaith. Roedd y fethodoleg Man Agored yn caniatáu i bobl alw draw a siarad am yr hyn yr oeddent am siarad amdano. Roedd yn fodd i gyfranogwyr rannu arferion da gyda llawer o bobl sy'n gweithio mewn sefydliadau amrywiol; trafod y pethau sy'n sialens rhag i blant gyfranogi; dysgu gan eraill sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd tebyg; pwyso a mesur eu gwaith eu hunain a datblygu strategaethau ar y cyd.
Mae cynadleddau man agored yn fethodoleg heb agenda, heb brif siaradwyr, heb drafodaethau panel a heb restr o weithdai a gyhoeddir ymlaen llaw. Y cyfan oedd gennym i ddechrau oedd y thema, "cyfranogaeth plant", sy'n pennu paramedrau'r gynhadledd. Mae Man Agored yn broses ddysgu. Mae'n cymryd amser i ddarganfod, pwyso a mesur a datrys materion.

Enghraifft Achos 19: Cystadleuaeth Bosteri Wythnos y Ffoaduriaid

Cynhaliwyd Arddangosfa ym mis Hydref 2006 i arddangos a rhoi gwobrau i'r posteri buddugol a luniwyd gan ddisgyblion o ysgolion o bob rhan o Gymru. Cyflwynwyd y posteri fel rhan o gystadleuaeth gelf a gynhaliwyd gan Achub y Plant (Cymru), i hyrwyddo Wythnos y Ffoaduriaid a'r cyfraniad positif y mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ei wneud yng Nghymru. Rhannwyd y gystadleuaeth yn adrannau, i gynigion Dan 11 a Thros 11, ac roedd y negeseuon yng nghynigion y plant a'r bobl ifanc yn adlewyrchu'r sefyllfaoedd a wynebir gan geiswyr lloches. Cynhaliwyd y Gystadleuaeth a'r arddangosfa i godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion am geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru.

Enghraifft Achos 20: System Bleidleisio Ryngweithiol y Ddraig Ffynci

Erbyn hyn mae llawer o sefydliadau yng Nghymru yn defnyddio systemau pleidleisio rhyngweithiol, lle mae pob person ifanc yn cael pad pleidleisio ei hun ac yn bwrw pleidlais ar nifer o bynciau. Caiff y canlyniadau eu coladu ar amrantiad ac maent ar gael i'w gweld drwy PowerPoint. Mae'r pleidleisio yn union yr un fath â Who wants to be a Millionaire ac mae'n gweithio'n dda iawn. Mae'r Ddraig Ffynci'n defnydido'r system bleidleisio i gasglu barn yr aelodau am bwnc. Er enghraifft, pleidleisiodd aelodau'r Ddraig Ffynci'n ddiweddar ar gynllun terfynol y *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru* drwy ddefnyddio'r padiau pleidleisio rhyngweithiol.

Cwestiynau Cyffredin:

Beth yw'r nod drwyddo draw?
Er enghraifft, ai'r nod yw rhoi gwybodaeth, ysbrydoli, cynhyrchu syniadau neu godi cwestiynau?

Pwy yw eich cynulleidfa darged?
Pa grwp oedran? Ai'r holl blant mewn grwp oedran ynteu ryw grwp arbennig?

Cyllideb/adnoddau?
Ystyriwch y costau cychwynnol a'r costau parhaus. Pa adnoddau staff sydd gennych chi? Oes gwirfoddolwyr ar gael?

Cyfyngiadau amser?
Beth sy'n realistig ac yn ymarferol yn yr amser sydd ar gael ichi?

Gwybodaeth?
Pa wybodaeth ydych chi am ei rhoi? Beth mae angen ichi ei ddysgu o'r gwaith? Faint o fanylder a pha lefel o fanylder sy'n ofynnol?

Cymryd rhan?
Sut gall plant a phobl ifanc fod â rhan yn y gwaith o greu'r cynnyrch?

Pa mor hygyrch yw'r cyfryngau?
Ydy'r plant a'r bobl ifanc yn gallu defnyddio/manteisio ar y dechnoleg yr ydych yn ei defnyddio? Er enghraifft, negeseuon testun/y rhyngrwyd/MP3s/DVDs.

Hygyrchedd i bawb?
Mae hygyrchedd corfforol yn bwysig, yn cynnwys trafnidiaeth. Mae is-deitlau neu drosleisio ychwanegol ar DVDs i'r rhai sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw yn bosibl, er y bydd hynny am gost ychwanegol. Gall y cyfuniad o ddelweddau gweledol ac iaith lafar wella dealltwriaeth y rhai sydd ag anawsterau dysgu.

Pa gyfuniad?
Mewn llawer o achosion, efallai mai cyfuniad o bethau fydd yr ateb gorau. Pa ddull neu gyfuniad o ddulliau sy'n gweddu i'ch pwrpas? Ystyriwch, er enghraifft, daflen a DVD; llyfryn a thâp; poster, llyfr comics a thaflen.

Mae'r amseru'n bwysig hefyd. Beth y mae angen ei wneud yn gyflym, a beth y gellir ac y dylid ei ystyried dros gyfnod hwy. Er enghraifft, mae angen poster i'w arddangos am hawliau plant, wedi'i greu gan weithiwyr Cyfranogi, nawr. Ond gallai prosiect celf mwy cymhleth dros dri mis greu model neu gerflun fydd yn para'n hirach
(Gweler Enghraifft Achos 3).

ADNODDAU

I gael eich cyfeirio at adnoddau cyffredinol am Gyfranogaeth gweler ***Canllaw 9: Adnoddau a Chymorth.***

Gweler hefyd yr adnoddau yng ***Nghanllaw 4: Dogfennau sy'n ystyriol o Blant a Phobl ifanc.***

Cyfeiriadau a Gwefannau ar gyfer Enghreifftiau Achos

Frost, Louise 2005, *Saying Power Final Report.* (Achub y Plant Cymru)

Fforwm Ieuenctid Abertawe
www.youngswansea.net/ www.shoutforyouth.net

Y Ddraig Ffynci – DVD *Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni* ar
www.funkydragon.org.uk

Cyber K8, CBS Caerffili
www.caerphilly.gov.uk neu
http://k8.managedtext.com/textmessagingservice.aspx

Prosiect Fy Nghinio Ysgol
www.myschoollunch.co.uk/caerphilly/

Gwefan Ieuenctid Powys
www.powysyob.com

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant a Deunyddiau Hawliau
http://www.diversityanddialogue.org.uk/right_to_offend.pdf
http://www.croa.org.uk